IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

# NOSC 2026 Rhif 19

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Rhaglan i Gylchfan Hardwick, y Fenni, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *6 Chwefror 2026* |
| *Yn dod i rym* | *12 Chwefror 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(1), (4), (7) a 124(3)(b) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Rhaglan i Gylchfan Hardwick, y Fenni, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Chwefror 2026.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru. Mewnosodwyd adran 124(3) gan adran 2(2) o Ddeddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025.

WELSH SUBORDINATE LEGISLATION

# NWSI 2026 No. 19

## ROAD TRAFFIC, WALES

## The A40 Trunk Road (Raglan Roundabout to Hardwick Roundabout, Abergavenny, Monmouthshire) (Temporary Traffic Restrictions & Prohibitions) Order 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *6 February 2026* |
| *Coming into force* | *12 February 2026* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A40 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be restricted and/or prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1), (4), (7) and 124(3)(b) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A40 Trunk Road (Raglan Roundabout to Hardwick Roundabout, Abergavenny, Monmouthshire) (Temporary Traffic Restrictions & Prohibitions) Order 2026 and this Order comes into force on 12 February 2026.

### Interpretation

**2.** In this Order—

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales. Section 124(3) was inserted by the Legislation (Procedure, Publication and Repeals) (Wales) Act 2025, section 2(2).

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw—

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 12 Chwefror 2026 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Rhaglan hyd at ei chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Hardwick, y Fenni, Sir Fynwy;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Cyfyngiadau a gwaharddiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd pobl anabl na reidio unrhyw feic pedal ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn.

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means—

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**);

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A40 Raglan to Llandovery trunk road that extends from its junction with the western side of Raglan Roundabout to its junction with the eastern side of Hardwick Roundabout, Abergavenny, Monmouthshire;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 00:01 hours on 12 February 2026 and ending when the temporary traffic signs are removed.

### Restrictions and prohibitions

**3.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order.

**4.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order.

**5.** No person may, during the works period, drive any invalid carriage or ride any pedal cycle on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order.

(**1**) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**7.** Nid yw'r cyfyngiadau na'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Atal dros dro**

**8.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthygl 3 a/neu 4 yn weithredol.

**Dirymu**

**9.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Y Gerbytffordd tua'r Gorllewin o Raglan i'r Fenni, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2025(**1**) a Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Rhaglan i Gylchfan Hardwick, y Fenni, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2025(**2**) wedi eu dirymu.

**Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 6 Chwefror 2026

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

(**1**) O.S. 2025/173 (Cy. 35).
(**2**) O.S. 2025/253 (Cy. 52).

**6.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order.

**Application**

**7.** The restrictions and prohibitions in articles 3, 4, 5 and 6 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Suspension**

**8.** Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order are suspended during such times as the restrictions specified in article 3 and/or 4 are in operation.

**Revocation**

**9.** The A40 Trunk Road (Westbound Carriageway from Raglan to Abergavenny, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2025(**1**) and the A40 Trunk Road (Raglan Roundabout to Hardwick Roundabout, Abergavenny, Monmouthshire) (Temporary 50 mph Speed Limit) Order 2025(**2**) are revoked.

**Duration of this Order**

**10.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 6 February 2026

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

(**1**) S.I. 2025/173 (W. 35).
(**2**) S.I. 2025/253 (W. 52).